

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 31ain o Awst 2022 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Catrin Johnson, John P Jones, Berwyn Harding, Idris Jones, Wyn Lewis, Lynne Mccrickett, Geraint Morgans, Arfon Hughes, John P Roberts a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Catrin Johnson. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Rhys Davies.
2. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar y 6ed o Orffennaf ar gynnig Idris Jones a'l eilio gan Wyn Lewis.
3. **Materion yn codi**
 - a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd a godwyd y tro diwethaf. Nid oedd ymateb o'r Uned Cefnffyrdd. Cadarnhaodd y Clerc y byddai yn cysylltu gyda Adra ynglyn a'r tyllau ym maes parcio Lawnt y Plas. Yng nghyswllt darn o dir yn Lawnt y Plas, roedd cadarnhad fod y weithred bellach wedi ei chwblhau, ac mai Cwmni Nod Glas yw'r perchennog newydd. Mynegodd y Cadeirydd ei siom nad oedd mynegiant o ddiddordeb wedi ei fynegi pan drafodwyd hyn yn flaenorol, ond atebodd Cyng Arfon Hughes fod hyn yn hollol newydd iddo, ac na wyddai fod Cwmni Nod Glas ynglwm wrth hyn. Gofynnwyd a allai Cwmni Nod Glas gael gwybodaeth a diweddariad ar y sefyllfa. Hefyd yn dilyn y newyddion yma, mynegwyd pryder gan y Cynghorwyr am fynediad i'r maes parcio, ac roedd angen gwybod a oedd hyn wedi ei ddiogelu. Roedd angen cadarnhad ar fap o beth yn union y mae Cyngor Gwynedd yn ei berchen yma.
 - b) **Ymgynghoriad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd** – nodwyd fod yr ymgynghoriad wedi ei ddanfôn allan i bawb o'r Cynghorwyr yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd fod yn bwysig pwysleisio cael cynnwys llwybr aml-bwrpas rhwng Dinas Mawddwy a mynwent Mallwyd mewn unrhyw gynlluniau i'r dyfodol.
 - c) **Byrddau gwybodaeth/dehongli** - adroddodd y Cadeirydd y Cyng Catrin Johnson ei bod wedi trafod yn fanwl gyda Dion o'r Parc Cenedlaethol yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Roedd dau fwrdd ganddi i ddangos i Gynghorwyr - a oedd wedi eu glanhau yn lan. Byddai y fframiau i gyd yn cael uwchraddio gyda arian dan gynllun SMS, a chreu un arwahan yn Lawnt y Plas. Byddai yna ymgynghori pellach gyda'r prosiect SMS, a byddai eu logo ar y fframiau. Byddai logo Cynefin a Cymad yn cael ei guddio. Diolchwyd yn fawr iawn i Catrin am ei gwaith gyda hyn, yn cynnwys y gwaith o'r glanhau. Penderfynwyd gadael gweddill y gwybodaeth yn union fel y mae, ac atgoffwyd pawb fod y byrddau yn perthyn i Gyngor Mawddwy.
 - d) **Arwyddion/ Biniau law cwn** – yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, adroddodd Cyng Lynn Mccrickett am y diweddaraaf, a dosbarthodd wybodaeth a map yn gwahodd awgrymiadau o ble i roi y biniau. Byddai yn ymgynghori gyda'r gymuned. Nodwyd fod arwyddion yn yr Hen Siop. Diolchwyd yn fawr iawn iddi am y gwaith.
 - e) **Eglwys Llanymawddwy** – adroddodd y Clerc yn llawn o gyfarfod a gafwyd rhyngddo a Michael Plane o'r Eglwys yn Llanymawddwy ar yr 28ain o Orffennaf.

Ar ol trafodaeth faith, penderfynwyd, ar gynnig John P Roberts a’l eilio gan Geraint Morgans, y gellir cytuno i’r adeilad gael ei roi ar y farchnad agored er mwyn gweld pwy fyddai a diddordeb, ond byddai raid cael cyfarfod wedyn cyn y gwerthiant terfynol.

f) **Tiroedd comin yr ardal** – roedd y Clerc wedi llwyddo I gael copiau o’r gofrestr, a chafwyd trafodaeth ar eu cynnwys. Gofynnwyd I’r Clerc ddanfon y cyfan ar e-bost I bawb o’r Cynghorwyr. Roedd pryder am ddarn o dir yn Minllyn lle roedd yn ymdangos nad oedd neb yn gwybod pwy oedd y perchennog. Cytunodd Lynn Mccrickett I gael map yn dangos terfynnau y tir yma, ac yna gellid gofyn I Gyngor Gwynedd wedyn am ganllawiau o beth I’w wneud, ac a oedd modd cofrestru yn enw y Cyngor Cymuned.

g) **Hysbysfwrdd Mallwyd** – dywedodd Cyng Catrin Johnson fod y gwaith yn parhau gyda hyn. Dywedwyd fod yr hysbysfwrdd sydd gan John P Jones a Catrin Johnson yn un oedd yn perthyn i Minllyn. Roedd un Mallwyd yng nghefn Gwesty’r Brigands, a dywedodd Catrin y byddai yn ei moen oddiyno, ac i fod yng ngofal ei atgyweirio a’i osod. Dywedodd Cyng Arfon Hughes fod angen ei roi yn is I lawr o’r llwybr, a bod Uned Cefnffyrdd wedi dweud lle yn union i’w osod. Byddai Cyng Arfon Hughes yn cadarnhau hyn. Awgrymwyd a oedd posib gosod un Minllyn ar y tir lle sydd angen ei gofrestru.

h) **Gwaith yn Eglwys Llanymawddwy** – roedd coed yn gor-dyfu ac roedd angen tacluso a chlirio mwswg y llwybr ayyb - nodwyd amcangyfrif i law gan Tegid Humphreys am £220, a chytunwyd i hyn. Cytunodd Cyng Catrin Johnson I edrych ar y llwybr wedyn, a gwneud gwaith os oedd angen.

i) **Tir ger Dugoed Bach** , roedd e-bost pellach wedi ei yrru yng nghyswllt presenoldeb carafannau, ac roedd cadarnhad y byddai’r uned cydymffurfio yn ymdrin a’r mater o fewn pythefnos i 3 wythnos.

j) **Problem tai gwag yr ardal** – darllenwyd e-bost Gareth Moriarty Owen o Gyngor Gwynedd yng nghyswllt 6 Mawddwy Cottages, Minllyn fel eiddo oedd yn wag ers 17 mlynedd – roedd treth yn parhau I gael ei dalu arno, ac felly nid yw’n gymwys ar restr tai gwag y sir. Os oedd yr eiddo yn creu niwsans statudol I unrhyw eiddo o’l gwmpas, byddai modd edrych arno fel mater Gorfodaeth Tai os yn berthnasol.

k) **Cyfleusterau i blant dros 7 oed yn y Dinas** – trafodwyd ymhellach ar ol y tro diwethaf, ac roedd ymweliad wedi bod ar y safle yn Lawnt y Plas lle byddai hyn yn bosib. Roedd angen cadarnhad o’r perthnogaeth I ddechrau, ac yna ymchwilio i ffynonellau ariannol gyda Chyngor Gwynedd. Cytunodd Cyng Wyn Lewis a Catrin Johnson a’r Clerc gydweithio ar hyn

l) **Wal mynwent Mallwyd** – Adroddodd y Cyng Geraint Morgans ei fod wedi bod oddiamgylch y wal yn ofalus, ac ni allai weld fod risc I’r wal gwmpo yn y dyfodol agos, gab nad oedd dim I’w weld wedi symud yn ddiweddar. Roedd rhaid cofio mai hen wal oedd hon, ond bod angen cadw golwg ar y sefyllfa. Cynigiodd I adael y sefyllfa am y tro, a chafodd hyn ei eilio gan Cyng Idris Jones, a gyda chefnogaeth y mwyfrif o’r Cynghorwyr.

4. Materion Cynllunio

Roedd dau gais cynllunio wedi ei ddsbarthu I’r Cynghorwyr ers y cyfarfod diwethaf, sef;

- **NP5/74/181A** - Trosi sgubor i breswyl – sgubor yn Bryn Cleifion, Mallwyd

- **NP5/74/499** – Gosod twr dellt 25m – tir ym Mhlanigfa Mynogau, Dinas Mawddwy

Roedd mwyafrif clir wedi mynegi barn y dylid eu caniatáu.

Adroddodd y Clerc am gynnwys e-bost gan y Cynghorydd Arfon Hughes i'r Clerc dyddiedig 14eg Gorfennaf 2022, a oedd yn codi nifer o gwestiynau am y dull o ymateb i geisiadau gan Gynghorwyr rhwng cyfarfodydd o'r Cyngor. Adroddodd y Clerc y trefniadau presennol yn fanwl, sef fod pob Cynghorydd yn cael e-bost gyda linc l'r cais, a chyfle i ymateb o fewn amser rhesymol. Cytunwyd y dylid parhau gyda'r drefn bresennol a oedd wedi ei sefydlu ers rhai blynnyddoedd bellach.

Adroddodd y Cyng John P Roberts fod cais cynllunio Penthryn, Cwm Cywarch bellach wedi ei ganiatáu, ond fod y perchennog erbyn hyn yn gwerthu yr eiddo. Roedd yn ymddangos fod hyn er mwyn gwneud elw, a bod angen mwy o ofal gan y Cyngor Cymuned yn y dyfodol wrth roi barn i ganiatáu mewn sefyllfaoedd fel hyn. Ymatebwyd gan nifer o Gynghorwyr fodd bynnag fod rhaid i'r Cyngor Cymuned ymateb i beth sydd gerbron ar y pryd, **sef y cais gerbron**, a bod yn well cael adeilad wedi ei adnewyddu ar y safle yn hytrach na murddun.

5. Materion Cyllid.

Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor (31/08/22), sef Cyfri Cyfredol £10,370.30, Cyfri Claddedigaeth £1736.28 Cyfri Cadw £769.04.

Roedd ail ran y parasept bellach i law, sef £5350.

Cyfeiriwyd at yr Is-bwyllgor Cyllid a oedd wedi ei gynnal hanner awr cyn y cyfarfod, a bod yr aelodau wedi ystyried y gyllideb yn fanwl, ac wedi mynd drwy'r holl daliadau/derbyniadau a wnaethpwyd hyd yma yn y flwyddyn ariannol 2022-23, a'r costau oedd yn debygol o wynebu y Cyngor. Roedd yn glir fod rhaid cadw cyfraniadau i fudiadau i tua £2500 fel cyfanswm.

Ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau efo'r banc ynglyn a bancio ar-lein i'r Cyngor i'r dyfodol, o gofio hefyd fod Cangen Barclays Dolgellau yn cau ym mis Hydref eleni – sefyllfa a fyddai yn gwneud bancio yn llawer mwy anodd. Cytunodd pawb yn unfrydol nad oedd dewis ond mynd lawr y llwybr yma i'r dyfodol.

Cytunwyd i dalu cost Archwilio mewnol 2021/2022 i Gyngor Gwynedd o £216, a chostau archwilio allanol i Archwilio Cymru am gost o £284.

Roedd dau gais gerbron, a phenderfynwyd fel a ganlyn;

Le Tour de Cor – cytunwyd ar gyfraniad o £400. (Cafwyd mynegiant diddordeb gan Cyng John P Roberts a Cyng Geraint Morgans a gadawsant yr ystafell pan drafodwyd hyn.)

Yn y cyswllt hyn, mynegwyd geiriau caredig i longyfarch y criw i gyd ar feicio o Gaergybi i Gaerdydd, byddai arbed bywydau fel canlyniad i'w hymdrechion. Diolch o galon iddynt oll.

Cerebral Palsy Cymru – penderfynwyd peidio cyfrannu.

6. Gohebiaeth.

- a) Darllenwyd lythyr gan David Charles Williams, Swyddog Prosiect 'Tim Tacluso Ardal Ni' a oedd yn son am y gweithlu oedd wedi ei sefydlu, a'l fod angen

clywed beth sydd angen sylw o fewn ein cymunedau. Addawodd y Clerc ei ddanfon oddiamgylch y Cynghorwyr.

- b) Nodwyd e-bost gan elusen Calon Hearts a oedd yn cynnig cymorthdal ar gyfer defibrillators. Awgrymwyd tybed a oedd hyn o ddiddordeb I ardal Aberangell, a gofynnwyd I'r Clerc ddanfon yr e-bost oddiamgylch Cynghorwyr.
- c) Nodwyd lythyr yn rhoi dyddiadau cyfarfodydd blynyddol rhwng Cynghorau Cymuned a Pharc Cenedlaethol Eryri, sef Dydd Mawrth 25ain Hydref a Dydd Iau 27ain Hydref – rhwng 7 a 8.15yh. Byddai mwy o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd y byddai rhain yn gyfarfodydd zoom, ac yn agored I unrhyw Gynghorydd.
- d) Nodwyd lythyr yn hysbysu rhaglen waith Cyngor Gwynedd, sef strimio llwybrau yr ardal.
- e) Nodwyd gylchgrawn 'Chwarae dros Gymru' a oedd I law.
- f) Nodwyd e-bost gan Cyng Arfon Hughes I'r Clerc dyddiedig 27 Gorffennaf yn dwyn sylw I gonffeti plastig ar lawr ym mynent Mallwyd. Dywedodd y Clerc mai ei waith oedd cofnodi a gweithredu yn dilyn cyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Yn yr achos hwn, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi ymweld a'r fynwent yn dilyn derbyn yr e-bost, a'i bod wedi clirio y confetti.

7. Unrhyw Fater arall.

- a) Nodwyd gyda siom yr adroddiadau fod canolfan yr Ambiwylans Awyr yn symud o'r Trallwm. Roedd rhaid ychwanegu llais y Cyngor Cymuned i wrthwynebu hyn, a nodwyd y gallai unigolion ysgrifennu i mewn hefyd. Roedd yna gyfraniadau hael wedi eu gwneud dros y blynyddoedd i gefnogi yr elusen, ac roedd teimlad rwan fod pawb yn cael eu gadael i lawr.
- b) Gofynnwyd a oedd modd gwneud cais i ymestyn yr arwydd 40 o ddwy ochr yr A470 wrth ddod i mewn i Ddinas Mawddwy, sef cyn tro i Dinas o ochr Cerist, a chyn Dolbrodmaeth.
- c) Roedd adroddiadau o faw cwn ym mynent Mallwyd, a gwelwyd fod rhaid cadw llygad ar y sefyllfa.
- d) Gofynnwyd paham fod rhaid i e-byst i aelodau y Cyngor gael eu danfon Bcc (Blind copy) – ac atebwyd fod hyn yn rhan o reolau GDPR (General Data Protection Regulations) - ac roedd eglurhad gan y Clerc wedi ei roi rai misoedd yn ol. Rhoddwyd cynnig gan Geraint Morgans a'i eilio gan Lynn Mccrickett gyda chefnogaeth mwyafrif clir o'r Cynghorwyr fod rhaid cadw at y drefn yma.
- e) Cyfeiriwyd at y maes gwersylla ger Aberangell, ac y dylid cael cyfyngiad cyflwymder o'r bont i derfyn y Sir.
- f) Roedd angen torri gwair mynwent Llanymawddwy, ac angen cael gair gyda Tegid i wybod y sefyllfa ddiweddaraf.
- g) Cyfeiriwyd eto at y llwybr o'r gofgolofn i Minllyn, a chadarnhaodd y Cadeirydd fod ymweliad wedi bod a'r safle yn ddiweddar. Roedd codi hyn gyda Chyngor Gwynedd a ddylent hwy gysylltu gyda'r unigolion oedd berchen y tir bob ochr i'r llwybr.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER
12fed Hydref 2022, 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 10.05pm.

